



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cymoedd Ni, Ein Dyfodol Ni

Crynodeb i bobl ifanc



13%
25%
32%
28%
35%
41%



Mae Cymoedd De Cymru'n lle hyfryd i fyw a gweithio.

Maen nhw'n llawn bywyd, diwylliant, hanes a chymunedau cryf.

Mae yna lawer o gyfleoedd i bobl sy'n byw yma, ond mae yna broblemau hefyd.


Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bobl:

- gael swyddi o ansawdd da yn agos at lle maen nhw'n byw
- bod â sgiliau i gael gwaith
- tyfu a gwneud yn dda ym mhob agwedd ar eu bywyd
- cael y bywyd gorau posib.


Mae hyn yn golygu gwneud ambell newid.

Felly, fe wnaethon ni sefydlu grŵp i wrando ar bobl yn y Cymoedd ac i gael gwybod beth sydd angen digwydd.

Dyma beth rydyn ni wedi'i wneud a beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud.



Beth rydyn ni'n ei wybod












- Mae hyd at 30% o boblogaeth Cymru'n byw yma.
- Mae llawer o bobl yn teithio i Gasnewydd, Caerdydd ac Abertawe i weithio.
- Mae pobl yn dod yma ar wyliau ac i wneud chwaraeon antur.

Gwrando ar gymunedau

Rydyn ni wedi bod yn siarad â phobl, busnesau a chymunedau ac yn gwrandao arnyn nhw.

Rydyn ni wedi:

-  • astudio gwybodaeth a data
-  • cynnal digwyddiadau
-  • cael cyfarfodydd cyhoeddus
-  • cyfarfod â grwpiau ffocws
-  • cyfarfod â phlant a phobl ifanc
-  • cyfarfod â theuluoedd
-  • cyfarfod â busnesau
-  • defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol hefyd.



Mae popeth rydych chi wedi'i ddweud wedi'n helpu ni i lunio'r cynllun yma a phenderfynu ar ein meysydd blaenoriaeth.

Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar

- 1. Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau sydd eu hangen i'w gwneud nhw**
- 2. Gwell gwasanaethau cyhoeddus**
- 3. Fy nghymuned leol**




1. Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau sydd eu hangen i'w gwneud nhw

Fe wnaeth llawer o bobl ddweud eu bod nhw'n hoffi byw yma ond bod angen mwy o swyddi da a chyfleoedd i gael sgiliau.

Erbyn 2021 fe fyddwn ni wedi:

- helpu 7000 o bobl i gael gwaith
- cefnogi busnesau i dyfu a chreu swyddi diogel sy'n talu'n dda
- gwneud yn siŵr bod pobl yn meddu ar y sgiliau iawn i gael swydd dda.



Fe wnaethoch chi ddweud:

Does dim digon o gyfleoedd swyddi.

Fe fyddwn ni:

- yn creu cyfleoedd swyddi newydd ledled y Cymoedd
- yn edrych ar symud rhai o'n swyddfeydd ni ein hunain, yn ogystal â rhai llywodraeth leol, i'r Cymoedd
- yn gwneud yn siŵr ei bod hi'n bosib defnyddio tir cyhoeddus ac eiddo cyhoeddus yn y ffyrdd iawn
- yn helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd swyddi yn y diwydiannau bwyd, adwerthu a gofal
- yn cefnogi busnesau newydd a rhai sy'n tyfu i greu mwy o swyddi
- yn defnyddio "Swyddi Gwell Yn Nes At Adre" yn y Cymoedd i greu swyddi newydd
- yn defnyddio ein rhaglen "Cartrefi Clyd", ein cynllun adeiladu tai a'n cynllun trafnidiaeth i greu mwy o swyddi.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae angen i fusnesau gael mwy o gymorth i ddechrau ac i dyfu.

Fe fyddwn ni:

- yn gwella ein cymorth i fusnesau
- yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cymorth pan maen nhw'n gofyn amdano
- yn nodi'r 100 busnes sy'n barod i dyfu ac yn rhoi cymorth ychwanegol iddyn nhw.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae angen i bobl gael mwy o help i gael y swyddi sydd ar gael.

Fe fyddwn ni:

- yn rhoi cyngor gyrfaoedd gwell i bobl ifanc
- yn helpu busnesau i gysylltu ag ysgolion a cholegau fel bod pobl ifanc yn gwybod pa sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i gael swyddi
- yn rhedeg rhaglenni i helpu pobl ddi-waith i gael sgiliau a swyddi
- yn cynnig mwy o hyfforddiant i bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am amser hir
- yn cynnig mwy o gyfleoedd hyfforddi ym maes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM), iechyd, twristiaeth, lletygarwch, ffermio a rheoli coetiroedd
- yn cynnig mwy o brentisiaethau mewn gwasanaethau, chwaraeon a gwaith ieuenctid
- yn helpu myfyrwyr i ddysgu Cymraeg neu i wella'u sgiliau Cymraeg pan mae angen hyn i wneud y swyddi, er enghraifft ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.



Fe wnaethoch chi ddweud:

Does dim digon o ofal plant, ac mae'n ddrud. Mae hyn yn gallu rhwystro pobl rhag mynd yn ôl i weithio.

Fe fyddwn ni:

- yn rhoi'r cynnig gofal plant newydd ar brawf mewn rhannau o'r Cymoedd o fis Medi 2017
- yn cydweithio â Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd i annog pobl ddi-waith i gymryd lleoliadau gwaith mewn meithrinfeydd.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae angen i bobl ifanc gael mwy o gyngor o ansawdd da ar yrfaeodd a sgiliau gwaith.

Fe fyddwn ni:

- yn cydweithio â Gyrfa Cymru ac yn rhoi mwy o wybodaeth i ysgolion
- yn cefnogi busnesau digidol i gysylltu ag ysgolion i roi cyngor ar yrfaeodd
- yn gwneud yn siŵr bod pobl yn meddu ar y sgiliau iawn i weithio mewn busnesau digidol.



2. Gwell gwasanaethau cyhoeddus

Fe ddywedodd llawer o bobl fod gwasanaethau'n dda ond y dylen nhw weithio'n fwy gyda'i gilydd.

Erbyn 2021 fe fyddwn ni wedi:

- cefnogi gwasanaethau i gydweithio â chymunedau a sefydliadau
- cefnogi mwy o bobl i fyw bywyd iach
- sicrhau trafniadaeth gyhoeddus well, sydd wedi'i chydgysylltu, y mae pobl yn gallu ei fforddio
- gwella canlyniadau addysg i blant.



Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae angen i'r gwasanaethau cyhoeddus siarad â'i gilydd a chydweithio mwy.

Fe fyddwn ni:

- yn gweithio gyda thair cymuned yn y Cymoedd i weld sut y gall gwasanaethau cyhoeddus gydweithio'n well
- yn gweithio gyda'r cynghorau i roi anghenion pobl yn gyntaf.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Dylai adeiladau (fel ysgolion) a gwasanaethau gael eu defnyddio'n well.

Fe fyddwn ni:

- yn penderfynu lle i gael hybiau cymunedol (canolfannau) a pha wasanaethau y dylid eu lleoli ynddyn nhw
- yn edrych ar symud rhai gwasanaethau i mewn i adeiladau ysgolion
- yn lleoli rheolwyr medrus mewn ysgolion i helpu'r cymunedau a'r ysgolion i wneud penderfyniadau.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae angen i wasanaethau iechyd fod yn well am helpu ein poblogaeth sy'n heneiddio a chydweithio'n well.

Fe fyddwn ni:

- yn edrych am ffyrdd newydd i bobl gael cymorth ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl
- yn edrych ar ffyrdd i Feddygon Teulu a gwasanaethau gydweithio â sefydliadau lleol
- yn datblygu rhaglen ar gyfer pobl ifanc sydd eisiau gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Dydy pobl ddim yn teimlo bod y gwasanaethau iechyd meddwl yn eu cefnogi nhw.

Fe fyddwn ni:

- yn edrych ar ehangu'r bond Llesiant yn y Cymoedd
- yn cysylltu pobl â phrosiectau sy'n cefnogi iechyd meddwl, fel prosiectau celf, chwaraeon a chorau.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae eiddo gwag a byw mewn tai o ansawdd gwael yn ddrwg i'r gymuned. Mae'n gallu achosi troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Fe fyddwn ni:

- yn cydweithio â'r cyngorau
- yn cael y gymuned i gefnogi prosiectau ynni a gwelliannau yn y cartref.

**Fe wnaethoch chi ddweud:**

Does dim digon o dai o ansawdd da y mae pobl yn gallu fforddio'u prynu neu fyw ynddyn nhw.

Fe fyddwn ni:

- yn edrych ar gynllun Metro De Cymru i weld lle mae angen inni gael mwy o dai
- yn gweithio gyda phartneriaeth y fargen ddinesig newydd i aildechrau adeiladu ar safleoedd tai lle mae gwaith wedi stopio
- yn cefnogi adeiladwyr lleol
- yn edrych ar opsiynau tai eraill.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae trafniadaeth gyhoeddus yn ddrud a dydy hi ddim wedi'i chydgyssylltu'n iawn.

Fe fyddwn ni:


- yn cydweithio â chwmnïau rheilffyrdd a bysiau i wneud i'r bysiau a'r trenau redeg yn amlach ac i wneud teithio'n fwy fforddiadwy
- yn edrych ar gynllun teithio'n rhatach i bobl ifanc
- yn rhoi llwybrau bysiau newydd ar brawf mewn mwy o ardaloedd
- yn cynnig mwy o wybodaeth am deithio
- yn defnyddio technoleg ddigidol ac apiau i roi gwybodaeth am deithio.

3. Fy Nghymuned

Fe ddywedodd llawer o bobl eu bod nhw'n falch o'u cymunedau a'u bod nhw eisiau tynnu sylw at harddwch a threftadaeth y Cymoedd.

Erbyn 2021 fe fyddwn ni wedi:

- creu Parc Tirwedd y Cymoedd i helpu cymunedau i ddathlu a gwneud yn fawr o'r adnoddau naturiol a'r dreftadaeth
- helpu i wneud canol trefi'n fannau bywiog
- cynyddu twristiaeth yn y Cymoedd.



Fe wnaethoch chi ddweud:

Dydyn ni ddim yn gwneud y gorau o'n hadnoddau naturiol neu'n treftadaeth ddiwylliannol.

Fe fyddwn ni:

→ yn rhoi'r syniad o Barc Tirwedd y Cymoedd ar brawf.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae angen i ganol trefi gael ffocws ac egni newydd.

Fe fyddwn ni:

- yn gwella canol trefi'r Cymoedd ar sail beth y mae cymunedau ei angen ac eisiau
- yn cefnogi syniadau sy'n dod â chartrefi, busnesau a mannau gwyrdd i gymunedau lleol
- yn gweld a fydd parcio am ddim yn helpu canol trefi.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Fe allai ynni adnewyddadwy ddod â chyfleoedd i gymunedau lleol.

Fe fyddwn ni:

- yn edrych ar feithrin prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol
- yn defnyddio'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu yn y Cymoedd i helpu cymunedau
- yn dangos i bobl sut i ddefnyddio llai ar ynni a lleihau eu costau.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae angen i ni gael mwy o dwristiaeth yn yr ardal.

Fe fyddwn ni:


- yn dangos beth sydd gan y Cymoedd i'w gynnig i bobl
- yn cefnogi prosiectau sy'n cefnogi twristiaeth
- yn dod â digwyddiadau newydd i'r ardal.

Fe wnaethoch chi ddweud:

Mae angen i ni ofalu am ein hamgylchedd. Rhaid rhoi diwedd ar broblemau fel tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel.

Fe fyddwn ni:

- yn buddsoddi mwy mewn cynlluniau adeiladu a phrosiectau gwyrdd
- yn cydweithio â chymunedau a busnesau i wneud rhywbeth ynglŷn â sbwriel a thipio anghyfreithlon.



Y Camau Nesaf

Eich cynllun chi ydy Ein Cymoedd Ni, Ein Dyfodol Ni.

Rydyn ni eisiau clywed beth ydy'ch barn chi ar hyn. Fe fydd eich adborth chi'n ein helpu ni â'r camau nesaf – y cynllun cyflenwi.

Fe fydd y cynllun cyflenwi'n manylu ar:

- sut i wneud y pethau yma
- pwy fydd yn cymryd rhan
- y manteision rydyn ni eisiau eu gweld
- faint o amser y bydd hyn yn ei gymryd
- sut y byddwn ni'n mesur llwyddiant.

Fe fydd y cynllun cyflenwi'n cael ei gyhoeddi yn nhymor yr hydref 2017.

Diolch am ddarllen hwn

Os ydych chi eisiau chwarae rhan yna ewch i:

llyw.cymru/trafodycymoedd



[facebook.com/talkvalleys](https://www.facebook.com/talkvalleys)

